

ORDINHAD XXII

Bydd gan Brifysgol Bangor awdurdod i gyflwyno Cadeiriau i unigolion yn unol â Statud IX. Gweithredir y drefn ganlynol:

Cadeiriau Personol

1. Bydd cais am ddyrchafiad i Gadair Personol yn cynnwys curriculum vitae wedi'i drefnu yn unol â'r canllawiau a nodir i ymgeiswyr, sydd ar gael o Swyddfa'r Is-ganghellor neu wefan Adnoddau Dynol. Dylid gwneud ceisiadau fel rheol drwy Bennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg, a fydd ill dau yn darparu asesiad o'r achos. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cyflwyno ceisiadau'n uniongyrchol i Swyddfa'r Is-ganghellor. Rhaid i'r ymgeisydd fod â chontract cyflogaeth gyda'r Brifysgol.
2. Caiff cais ei ystyried yn y lle cyntaf gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion ar ran y Cyngor.
3. Bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion yn cynnwys yr Is-ganghellor, Dirprwy yr Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil a Menter), ynghyd ag uwch aelodau eraill o'r Brifysgol a enwebir gan yr Is-ganghellor.

Bydd Pennaeth Ysgol yr ymgeisydd yn aelod dibleidlais o'r Pwyllgor. Os digwydd i'r ymgeisydd fod yn Bennaeth Ysgol, bydd yr Is-ganghellor yn penodi Deon y Coleg i wasanaethu fel aelod dibleidlais o'r Pwyllgor.

Os yw'r Pwyllgor yn fodlon y sefydlwyd achos *prima facie*, gofynnir am asesiadau annibynnol o'r cais gan o leiaf dri pherson allanol, a fydd fel rheol yn athrawon yn yr un pwnc/maes neu mewn pwnc/maes perthnasol.

Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion fydd yn gyfrifol am ddethol aseswyr allanol, a bydd y Pwyllgor yn ystyried awgrymiadau gan Bennaeth yr Ysgol, neu - os bydd yr ymgeisydd yn Bennaeth Ysgol - gan Ddeon y Coleg. Bydd gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion awdurdod i benderfynu, os bydd angen, i geisio barn neu gyngor ychwanegol, a chyfethol unigolion i'r Pwyllgor.

4. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i asesu ceisiadau ac, ar ôl gohebu gydag aseswyr allanol, gwneud penderfyniadau ynghylch dyrchafiad.
5. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion sydd â'r awdurdod terfynol mewn cysylltiad â dyrchafiad.

6. Caiff penderfyniad y Pwyllgor ei gyflwyno drwy adroddiad i'r Cyngor.

7. Mae'r meini prawf dyrchafu i Gadair Bersonol fel a ganlyn:

Fel rheol, bydd ymgeiswyr am Gadair Bersonol eisoes ar lefel Darllenydd neu Uwch Ddarlithydd. Gall ymgeiswyr wneud cais am ddyrchafiad ar sail rhagoriaeth mewn ymchwil, addysgu a dysgu ac/neu gyfraniad ehangach i'r Brifysgol. Dyma feini prawf dyrchafiad i Gadair Bersonol:

- **Pwyslais ar Ymchwil** - Enw da'n rhyngwladol yn eu maes o ran ymchwil ysgolheigaidd, gwaith cyhoeddedig ac ennill grantiau.
- **Pwyslais ar Addysgu ac Ysgolheictod** - Awdurdod neilltuol yn eu pwnc ac yn adnabyddus yn eang yn y maes, a chyda phresenoldeb cyson yn y sector AU yng Nghymru, Prydain ac o bosibl yn rhyngwladol.
- **Pwyslais ar Gyfraniad Ehangach** - Cyfraniadau cyson a sylweddol yng Nghymru, ym Mhrydain ac o bosibl ar lefel rhyngwladol.

Dylai ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyfrannu ar draws rychwant amcanion strategol y Brifysgol, a hynny'n ychwanegol at ragoriaeth yn eu priod faes. Disgwylir i ymgeiswyr hefyd ddangos arweinyddiaeth yn eu meysydd a thystiolaeth o hwyluso, gwella ac ysbrydoli gwaith cydweithwyr - yn ogystal â rhagori eu hunain.

Athrawon Er Anrhydedd

8. Dylai unigolion a enwebir am deitl Athro Er Anrhydedd fel rheol fod yn academyddion o fri arbennig o'r tu allan i Brifysgol Bangor, ac nid yn gyn aelodau staff sydd wedi ymddeol.

9. Dylai Pennaeth yr Ysgol berthnasol gyflwyno enwebiad. Dylai gynnwys curriculum vitae byr, datganiad o gofnod ymchwil neu weithgarwch ysgolheigaidd yr unigolyn, a datganiad o'u cyfraniad disgwylidig i waith y Brifysgol. Dylai Deon y Coleg roi asesiad o'r achos hefyd.

10. Caiff enwebiad ei ystyried yn y lle cyntaf gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion ar ran y Cyngor.

11. Bydd Pennaeth yr Ysgol berthnasol yn aelod dibleidlais o'r Pwyllgor.

Os yw'r Pwyllgor yn fodlon y sefydlwyd achos *prima facie*, gofynnir am asesiadau annibynnol o'r enwebiad gan o leiaf dri pherson allanol a fydd, fel rheol, yn athrawon neu'n awdurdodau blaenllaw yn yr un pwnc/maes neu mewn pwnc/maes perthnasol.

Cyfrifoldeb Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion fydd dethol aseswyr allanol, a fydd yn ystyried awgrymiadau gan Bennaeth yr Ysgol. Bydd gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion awdurdod i benderfynu, os bydd angen, i geisio barn neu gyngor ychwanegol, a chyfethol unigolion i'r Pwyllgor.

12. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i asesu enwebiadau ac, ar ôl gohebu gydag aseswyr allanol, gwneud penderfyniadau ynghylch penodi i swydd Athro Er Anrhydedd.
13. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion sydd â'r awdurdod terfynol mewn cysylltiad â phenodiad.
14. Caiff penderfyniad y Pwyllgor ei gyflwyno drwy adroddiad i'r Cyngor.
15. Drwodd a thro bydd meini prawf rhoi teitl Athro Er Anrhydedd fel y rhai a nodir ym mharagraff 7 uchod ar gyfer Cadeiriau Personol. Caiff Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion ddehongli a yw rhagoriaeth mewn diwydiant, masnach, y proffesiynau neu fywyd cyhoeddus cyfwerth â chyfraniadau i ddysgu neu ymchwil. Lle mai rhagoriaeth mewn diwydiant neu mewn busnes yw'r maen prawf y seilir y penderfyniad arno, gall y Pwyllgor ddynodi'r ymgeisydd yn 'Athro er Anrhydedd mewn Diwydiant' neu'n 'Athro er Anrhydedd mewn Busnes'.
16. Fel rheol, caiff swydd Athro Er anrhydedd ei rhoi am gyfnod cyfyngedig.

Athrawon Ymchwil

17. Gellir pennu'r teitl 'Athro Ymchwil' i unrhyw aelod staff sydd â Chadair eisoës. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion fydd yn gyfrifol am y cyfryw benderfyniad.
18. Gellir gwneud penodiad i swydd 'Athro Ymchwil' rhan-amser heb hysbyseb gyhoeddus, cyhyd â bod gan y sawl a benodir deitl 'Athro' eisoës, neu y bu ganddo/ganddi deitl 'Athro', a ddyfarnwyd gan Brifysgol gydnabyddedig. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion fydd yn gyfrifol am y cyfryw benderfyniad.

Athrawon ar Ymweliad

19. Gellir rhoi'r teitl 'Athro ar Ymweliad' i unigolyn nad yw'n gyflogedig gan y Brifysgol, ond sydd â Chadair a ddyfarnwyd gan Brifysgol gydnabyddedig, ac sy'n gwneud cyfraniad 'ar ymweliad' at weithgarwch academiaidd y Brifysgol.
20. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion fydd yn gyfrifol am y cyfryw benderfyniad.
21. Lle nad oes gan unigolyn a enwebir am y cyfryw deitl Gadair eisoes gan Brifysgol gydnabyddedig, bydd y dulliau gweithredu a'r meini prawf a nodir ym mharagraffau 8-15 (ar gyfer Athrawon Er Anrhydedd) yn berthnasol.
22. Fel rheol, caiff swydd Athro ar Ymweliad ei rhoi am gyfnod cyfyngedig.

Swyddi Darllenyddion

Bydd gan Brifysgol Bangor awdurdod i roi swyddi Darllenyddion i unigolion yn unol â Statud IX. Gweithredir y drefn ganlynol:

23. Bydd cais am ddyrchafiad i deitl Darllenydd yn cynnwys curriculum vitae wedi'i drefnu yn unol â'r canllawiau a nodir i ymgeiswyr, sydd ar gael o Swyddfa'r Is-ganghellor neu wefan Adnoddau Dynol. Dylid gwneud ceisiadau fel rheol drwy Bennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg, a fydd ill dau yn darparu asesiad o'r achos. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cyflwyno ceisiadau'n uniongyrchol i Swyddfa'r Is-ganghellor. Rhaid i'r ymgeisydd fod â contract cyflogaeth gyda'r Brifysgol.
24. Caiff cais ei ystyried yn y lle cyntaf gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion ar ran y Cyngor.
25. Bydd Pennaeth Ysgol yr ymgeisydd yn aelod dibleidlais o'r Pwyllgor. Os digwydd i'r ymgeisydd fod yn Bennaeth Ysgol, bydd yr Is-ganghellor yn penodi Deon y Coleg i wasanaethu fel aelod dibleidlais o'r Pwyllgor.

Os yw'r Pwyllgor yn fodlon y sefydlwyd achos *prima facie*, gofynnir am asesiadau annibynnol o'r cais gan o leiaf dri pherson allanol, a fydd fel rheol yn athrawon yn yr un pwnc/maes neu mewn pwnc/maes perthnasol.

Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion fydd yn gyfrifol am ddethol aseswyr allanol, a bydd y Pwyllgor yn ystyried awgrymiadau gan Bennaeth yr Ysgol, neu - os bydd yr ymgeisydd yn Bennaeth Ysgol - gan Ddeon y Coleg. Bydd gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion awdurdod i benderfynu, os bydd angen, i geisio barn neu gyngor ychwanegol, a chyfethol unigolion i'r Pwyllgor.

26. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i asesu ceisiadau ac, ar ôl gohebu gydag aseswyr allanol, gwneud penderfyniadau ynghylch dyrchafiad.
27. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion sydd â'r awdurdod terfynol mewn cysylltiad â dyrchafiad.
28. Caiff penderfyniad y Pwyllgor ei gyflwyno drwy adroddiad i'r Cyngor.
29. Bydd y meini prawf ar gyfer dyrchafiad i Ddarllenyddiaeth yn canolbwyntio ar dystiolaeth o ymchwil a gweithgarwch academaidd o ansawdd uchel tebyg i'r hyn a ddisgwyilir wrth ddyfarnu Cadair Bersonol, ond sydd eto i gyflawni'r swm a'r dylanwad a ddisgwyilir gan ddeiliad Cadair.